AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2026




# Yr hyn sydd ei angen ar fusnesau cadwyn gyflenwi bwyd gan Lywodraeth nesaf Cymru

Cynhyrchiant | Amgylchedd | Cystadleurwydd

# Sut rydym yn cefnogi cadwyni cyflenwi bwyd Cymru

**Mae Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC) yn cynrychioli busnesau mewn pum prif sector o fewn y cadwyni cyflenwi sy'n bwydo'r genedl.**


Rydym yn cynrychioli'r busnesau sy'n cyflenwi ffermwyr y DU â'r bwyd anifeiliaid, gwrtaith, hadau, cynhyrchion diogelu cnydau a gwasanaethau cynghori sy'n hanfodol i gynhyrchu bwyd, ynghyd â chwmnïau sy'n masnachu cnydau a nwyddau amaethyddol yn fyd-eang.

Mae AIC yn llais ledled y DU ar gyfer y busnesau sy·n darparu·r cynhyrchion, gwasanaethau a chynlluniau sicrwydd masnach sy·n hanfodol ar gyfer cyflenwi bwyd, diod a phorthiant anifeiliaid ein gwlad yn ddiogel ac ar gyfer sicrhau hyder cadarn ynddynt. Rydym hefyd yn aelodau gweithredol o bedair cymdeithas fasnach Ewropeaidd, ac yn dilyn materion polisi Ewropeaidd a rhyngwladol yn agos.

Rydym yn bartner cydnabyddedig, gwybodus ac uchel ei barch ar gyfer y llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd ar draws pob plaid. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn helpu i lunio polisi i greu dyfodol cynhyrchiol, cynaliadwy a chystadleuol ar gyfer cyflenwad bwyd ein cenedl.

SGANIWCH FI

## CADWYN GYFLENWI BWYD CYMRU




## AIC CYMRU YN CYNRYCHIOLI

**31** CWMNI | **£1BN** TROSIANT | **800** GWEITHWYR

# Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

Mae gan AIC Cymru **31 o fusnesau sy'n aelodau llawn** ac yn aelodau cyswllt sy'n gweithredu ledled Cymru

Gwerth mewnbwn cyflenwadau amaethyddol o tua **£1.0 biliwn** yng Nghymru

Dros **800** o bobl yn cael eu cyflogi gan fusnesau sy'n aelodau o'r gydffederasiwn yng Nghymru

**£9.3 biliwn**: Trosiant y sector bwyd a diod yng Nghymru

**228,500** o bobl yn cael eu cyflogi ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru

Dros **50,000** o bobl yn cael eu cyflogi gan ffermydd yng Nghymru

**ffynonellau:* AIC ffigurau a ffeithiau am aelodiaeth
www.gov.wales

# Blaenoriaethau Etholiadol AIC Cymru

## 1 Strategaeth Fwyd Gynhwysfawr 'O'r Pridd i'r Plât'

Mae AIC Cymru yn cefnogi'r alwad am strategaeth gynhwysfawr. Dylai'r strategaeth hon gynnwys targedau uchelgeisiol wedi'u hategu gan bolisïau a fframweithiau ar gyfer twf cynaliadwy'r sector bwyd a ffermio yng Nghymru.

## 2 Polisïau amaethyddol sy'n tanategu bwyd, byd natur, hinsawdd a chymunedau

Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod polisïau'n cefnogi buddsoddiadau ar ffermydd ac yn darparu o leiaf yr un lefel o sefydlogrwydd i fusnesau fferm, cymunedau gwledig, a'r gadwyn gyflenwi ag y mae Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi'i wneud.

## 3 Cyllideb Amlflwydd wedi'i Chlustnodi i Gefnogi Twf Cynaliadwy

Mae sicrhau cyllideb amlflwyddyn wedi'i chlustnodi o dros £500 miliwn, yn sicrhau cydnerthedd ariannol ffermydd teuluol a chymunedau gwledig, gan gyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol a hinsawdd.

## 4 Sefydlu grŵp adolygu annibynnol ar gyfer y faich rheoleiddiol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu grŵp adolygu annibynnol er mwyn lleihau beichiau rheoleiddio ar amaethyddiaeth drwy nodi a dileu rheolau diangen neu reolau sy'n gorgyffwrdd, gan greu fframwaith mwy cefnogol ar gyfer ffermio.

## 5 Dull sy'n cael ei arwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth o ran ansawdd dŵr

Mae AIC Cymru yn cefnogi rôl ffermwyr mewn diogelu dŵr ond yn ystyried bod rheoliadau llygredd presennol yn rhy gymhleth a chostus. Bydd newidiadau deddfwriaethol wedi'u targedu a rhanddirymiad o'r terfyn nitrogen organig yn gwneud rheolau'n fwy ymarferol a chymesur.

## 6 Mabwysiadu bridio manwl i hybu cynhyrchu bwyd sy'n ystyriol o'r hinsawdd

Gallai golygu genynnau helpu i frwydro yn erbyn pwysau plâu a chlefydau, gwella iechyd a lles anifeiliaid, galluogi gwell defnydd o fewnbynnau, a chynyddu gwydnwch cnydau i ddigwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd a sychder. Rhaid i'r Senedd nesaf a Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru'n gallu gwireddu buddion technegau bridio manwl newydd.

Cysylltwch i drafod
ein maniffesto






**Michael Muncey**
AIC Cymru Y Rheolwr Polisi

Michael.Muncey@agindustries.org.uk
07785 518037



**Alister Davies**
Cadeirydd AIC Cymru

AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

Agricultural Industries Confederation Limited
First Floor, Unit 4 The Forum, Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

agindustries.org.uk